

Cyfarwyddyd Trwyddedu Amgylcheddol (Arfer Swyddogaethau) (Cymru) 2018

Nodyn Esboniadol

Gwneir y Cyfarwyddyd hwn yn unol â rheoliadau 33 a 62 o Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016¹ ("RhTA 2016"). Mae'n ymwneud â dyrannu cyfrifoldebau rheoleiddio amgylcheddol gosodiad Rhan A(1)², a weithredir gan Kronospan Limited yn y Waun, Gogledd Cymru.

O gymhwyso RhTA 2016 yn ddiodyn, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r rheoleiddiwr ar gyfer gosodiadau Rhan A(1)³ a leolir yng Nghymru. Yn unol â Chyfarwyddyd Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Arfer Swyddogaethau) (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) 2014⁴, fodd bynnag, mae'r swyddogaethau 'rheoleiddiwr' mewn perthynas â'r gweithgareddau a bennir yn y Cyfarwyddyd hwnnw a gynhelir yng ngosodiad Kronospan⁵ yn arferadwy gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBSW). CNC yw'r 'rheoleiddiwr' ar gyfer yr holl weithgareddau eraill a gynhelir yn y gosodiad hwnnw.

Mae erthygl 3 o'r Cyfarwyddyd hwn yn dirymu Cyfarwyddyd 2014, ac effaith hynny yw bod RhTA 2016 yn cael eu cymhwyso'n ddiodyn unwaith eto. Mae'r Cyfarwyddyd hwn, fodd bynnag, yn gwneud darpariaeth hefyd ar gyfer cyfnod trosiannol, er mwyn sicrhau y caiff swyddogaethau CBSW fel rheoleiddiwr eu trosglwyddo'n effeithiol ac mewn modd trefnus i CNC.

Mae erthygl 4 yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gymryd y camau angenrheidiol i ddisodli'r trwyddedau amgylcheddol presennol (a ddyroddwyd gan CNC a CBSW) ar gyfer gosodiad Kronospan gydag un drwydded amgylcheddol wedi ei chydgrynhoi a ddyroddir gan CNC yn unig. Rhaid i'r drwydded ddisodli barhau i awdurdodi'r un gweithgareddau ag a awdurdodir gan y trwyddedau presennol, o leiaf. Nid yw'r rhwymedigaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol i CNC awdurdodi unrhyw weithgaredd nad yw wedi ei awdurdodi'n briodol gan y trwyddedau presennol ar y dyddiad y mae'r Cyfarwyddyd yn dod i rym (er enghraifft unrhyw weithgareddau nad ydynt wedi eu hawdurdodi eto ar y dyddiad hwnnw). Nid yw ychwaith yn cyfyngu ar swyddogaethau CNC o dan

¹ O.S. 2016/1154.

² Gweler RhTA 2016, rheoliad 2(1).

³ Gweler RhTA 2016, rheoliad 32(1)(b).

⁴ Gwnaed Cyfarwyddyd 2014 o dan adran 33 o Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010. Cafodd y rheoliadau hynny eu dirymu a'u disodli gan RhTA 2016. Mae Cyfarwyddyd 2014 yn parhau i gael effaith yn rhinwedd rheoliad 77(2)(h) o RhTA 2016. Disodlodd Cyfarwyddyd 2014 Gyfarwyddyd Atal a Rheoli Llygredd (Cymru a Lloegr) (Arfer Swyddogaethau) (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) 2003 - a ddyroddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan reoliad 8(8) o Reoliadau Atal a Rheoli Llygredd (Cymru a Lloegr) 2000.

⁵ Y gosodiad Rhan A(1) a weithredir gan Kronospan Limited ym Maesgwyn Farm, Holyhead Road, Y Waun, Wrecsam LL14 5NT fel y'i dangosir ag ymyl goch ar Blau y Safle, cyfeirnod 7000/282, sydd ynghlwm â thrwydded bresennol CBSW yn Atodlen 2.

RhTA 2016 o benderfynu ar amodau newydd ar gyfer trwydded amgylcheddol neu amrywio rhai presennol, fel y maent yn ystyried yn briodol.

Mae erthygl 5(1) yn ei gwneud yn ofynnol (ac yn rhoi'r pŵer) i CBSW barhau i reoleiddio'r rhan o'r gosodiad y mae trwydded bresennol CBSW yn ymwneud â hi yn ystod y cyfnod trosiannol - hynny yw o'r dyddiad y mae'r Cyfarwyddyd hwn yn dod i rym hyd at y pwynt y mae CNC yn dyroddi'r drwydded wedi ei chydgrynhai sy'n disodli'r trwyddedau presennol. Ar yr adeg honno bydd y Cyfarwyddyd yn peidio â chael effaith yn awtomatig (gweler erthygl 7), ac CNC fydd yr unig reoleiddiwr ar gyfer y gosodiad cyfan. Yn ystod y cyfnod trosiannol, mae erthygl 5(3) yn ei gwneud yn ofynnol i CBSW hysbysu CNC cyn arfer swyddogaethau penodol (gan gynnwys y swyddogaeth o roi, cydgrynhai, amrywio, trosglwyddo neu ddirymu trwydded, a swyddogaethau sy'n ymwneud â gorfodi amodau trwydded).

Mae erthygl 5(4) yn sicrhau bod CNC yn gallu arfer unrhyw swyddogaethau o dan y Rheoliadau mewn perthynas â'r rhan o'r gosodiad y mae trwydded bresennol CBSW yn ymwneud â hi at ddiben cydymffurfio â'r gofyniad yn erthygl 4.

Mae erthygl 6 yn ei gwneud yn ofynnol i CBSW ddarparu unrhyw wybodaeth neu gymorth i CNC y mae CNC yn gofyn amdani neu amdano er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad yn erthygl 4.

Mae erthygl 7 yn darparu bod y Cyfarwyddyd hwn yn peidio â chael effaith yn awtomatig ar yr adeg pan fo CNC yn dyroddi un drwydded wedi ei chydgrynhai ar gyfer gosodiad Kronospan..

Cyfarwyddyd Trwyddedu Amgylcheddol (Arfer Swyddogaethau) (Cymru) 2018

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan reoliadau 33 a 62 o Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016⁶, yn rhoi'r Cyfarwyddyd a ganlyn.

Yn unol â rheoliadau 33(5) a 62(3), mae Gweinidogion Cymru wedi hysbysu, ac wedi ymgynghori ag:-

- (a) Corff Adnoddau Naturiol Cymru;
- (b) Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam;
- (c) Kronospan Limited.

Yn unol â rheoliad 33(5), mae'r Cyfarwyddyd hwn wedi ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Cyfarwyddyd hwn yw Cyfarwyddyd Trwyddedu Amgylcheddol (Arfer Swyddogaethau) (Cymru) 2018 a daw i rym ar 31 Mawrth 2018.

Dehongli

2.- (1) Yn y Cyfarwyddyd hwn-

ystyr "CBSW" ("WCBC") yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam.

ystyr "CNC" ("NRW") yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru.

ystyr "y fangre" ("*the premises*") yw safle'r gosodiad a weithredir gan Kronospan Limited ym Maesgwyn Farm, Holyhead Road, Y Waun, Wreccsam

⁶ O.S. 2016/1154, y mae iddo ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r Cyfarwyddyd hwn.

LL14 5NT ac a ddangosir fel y tir ag ymyl goch ar Blan y Safle, cyfeirnod 7000/282, sydd ynghlwm â thrwydded CBSW yn Atodlen 2.

mae “gweithgareddau” yn cyfeirio at unrhyw weithgareddau o fewn yr ystyr a roddir i “activities” ym mharagraff 1(1) o Ran 1 o Atodlen 1 i’r Rheoliadau; ac mae’n cynnwys unrhyw weithgaredd sy’n uniongyrchol gysylltiedig (“*directly associated activity*”).

ystyr “y Rheoliadau” (“*the Regulations*”) yw Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 (O.S. 2016/1154).

ystyr “trwydded CBSW” (“*the WCBC permit*”) yw’r drwydded amgylcheddol a ddyroddwyd gan CBSW, ag iddi’r cyfeirnod WCBC/IPPC/03/KR(V3), ynghyd ag unrhyw amrywiad i’r drwydded honno a bennir cyn diwedd y diwrnod cyn y diwrnod y mae’r Cyfarwyddyd hwn yn dod i rym.

ystyr “trwydded CNC” (“*the NRW permit*”) yw’r drwydded amgylcheddol a ddyroddwyd gan CNC, ag iddi’r cyfeirnod EPR/BW9999IG, ynghyd ag unrhyw amrywiad i’r drwydded honno a bennir cyn diwedd y diwrnod cyn y diwrnod y mae’r Cyfarwyddyd hwn yn dod i rym.

ystyr “trwyddedau Kronospan” (“*the Kronospan permits*”) yw trwydded CNC a thrwydded CBSW.

(2) Mae i unrhyw ymadrodd nad yw wedi ei ddiffinio fel arall yn y Cyfarwyddyd hwn yr un ystyr â’r ymadrodd Saesneg cyfatebol yn y Rheoliadau.

Dirymu’r Cyfarwyddyd presennol

3. - Mae Cyfarwyddyd Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Arfer Swyddogaethau) (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) 2014 wedi ei ddirymu.

Gofyniad i CNC gydgrynhoi trwyddedau amgylcheddol

4.– (1) Rhaid i CNC sicrhau bod y gweithgareddau a awdurdodir o dan y trwyddedau Kronospan wedi eu hawdurdodi o dan un drwydded amgylcheddol wedi ei chydgrynhoi a ddyroddir gan CNC.

Darpariaeth drosiannol - arfer swyddogaethau cyn i drwydded wedi ei chydgrynhai gael ei dyroddi

5.- (1) Rhaid i CBSW barhau i arfer swyddogaethau'r rheoleiddiwr o dan y Rheoliadau mewn perthynas â'r gweithgareddau a awdurdodir gan drwydded CBSW.

(2) Ond mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4).

(3) Rhaid i CBSW hysbysu CNC am unrhyw fwriad i arfer swyddogaethau o dan reoliadau 13 (rhoi trwydded amgylcheddol), 18 (cydgrynhai trwydded amgylcheddol), 20 (amrywio trwydded amgylcheddol), 21 (trosglwyddo trwydded), 22 (dirymu trwydded amgylcheddol: cyffredinol) neu 38 (tramgwyddau) o'r Rheoliadau, neu'n unol â hwy, mewn perthynas â'r gweithgareddau a awdurdodir gan drwydded CBSW cyn arfer y swyddogaethau hynny.

(4) Caiff CNC arfer swyddogaethau'r rheoleiddiwr o dan y Rheoliadau mewn perthynas â'r gweithgareddau a awdurdodir gan drwydded CBSW at ddiben cydymffurfio â'r gofyniad o dan erthygl 4 o'r Cyfarwyddyd hwn.

Cydweithredu

6.—(1) Os yw CNC yn gofyn i CBSW ddarparu gwybodaeth sydd gan CBSW i CNC, sy'n ofynnol gan CNC at ddiben arfer ei swyddogaethau er mwyn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd hwn, rhaid i CBSW ddarparu'r wybodaeth oni bai bod CBSW wedi ei wahardd rhag ei darparu yn rhinwedd deddfiad neu unrhyw reol gyfreithiol arall.

(2) Os yw CNC yn gofyn i CBSW arfer ei swyddogaethau i ddarparu cymorth arall i CNC sy'n ofynnol gan CNC at ddiben arfer ei swyddogaethau er mwyn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd hwn, rhaid i CBSW ddarparu'r cymorth oni bai bod CBSW yn ystyried y byddai gwneud hynny—

(a) yn anghydnaws â dyletswyddau CBSW ei hun, neu

(b) yn cael effaith andwyol fel arall ar arfer swyddogaethau CBSW.

Dod i ben

7.- Mae'r Cyfarwyddyd hwn y peidio â chael effaith pan fo CNC yn dyroddi un drwydded amgylcheddol wedi ei chydgrynhai mewn perthynas â'r gosodiad a weithredir gan Kronospan Limited yn y fangre.

Llofnodwyd

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Hannah Brynny', with a long horizontal stroke extending to the right.

Gweinidog yr Amgylchedd.

O dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion
Gwledig, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiad

22/03/18